LLYTHYR 9 :- AROLWG ESTYN yng Ngwenffrwd EBRILL 9-12

# Deall arolygiadau mewn ysgolion: Canllaw ar gyfer rhieni a gofalwyr

**Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ystod eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a bydd yn arolygu ysgol eich plentyn cyn bo hir.**

## Sut mae arolygwyr yn ystyried fy marn am yr ysgol?

Mae Estyn eisiau gwybod eich barn am yr ysgol. Gallwch wneud hyn trwy:

- **lenwi holiadur ar-lein** trwy ddilyn y ddolen uniongyrchol a roddwyd i chi gan yr ysgol neu trwy fynd i http://vir.estyn.gov.uk, clicio ar 'llenwi holiadur i rieni' a theipio 10628. Bydd yr holiaduron ar gael tan 15/03/2018.
- **mynychu cyfarfod ag arolygwyr**. Bydd yr ysgol yn rhoi dyddiad ac amser y cyfarfod i chi.

Os cewch unrhyw drafferthion wrth fynd at yr holiadur neu ei lenwi, gallwch ofyn i'ch ysgol neu Estyn am gopi caled. Dylid dychwelyd copïau caled yn uniongyrchol gan ddefnyddio'r dull rhadbost neu 'Yn Gyfrinachol' trwy eich ysgol erbyn 12/03/2018 fan bellaf.

## Sut bydd arolygiad o fudd i'm plentyn?

Mae arolygiad yn dweud wrthych am y safonau a'r ansawdd yn ysgol eich plentyn. Mae'n rhoi barn arbenigol i'r ysgol ar ei gwaith, gan amlinellu'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a'i helpu i wella.

## Pwy sy'n arolygu'r ysgol?

Caiff y tîm arolygu ei arwain gan Arolygydd Cofnodol sydd â phrofiad sylweddol o addysgu ac addysg. Mae pob tîm arolygu yn cynnwys arolygydd lleyg ac arolygydd cymheiriaid hefyd. Nid yw arolygwyr lleyg wedi gweithio fel athrawon mewn ysgol, ac mae arolygwyr cymheiriaid yn benaethiaid neu'n rheolwyr o ysgol arall. Caiff pob ysgol enwebu rhywun i gysylltu'n uniongyrchol â'r tîm arolygu i roi gwybod i'r arolygwyr am yr ysgol a'i gwaith.

## Sut bydd yr ysgol yn cael ei harolygu?

Mae arolygwyr yn dilyn arweiniad arolygu Estyn. Byddant yn defnyddio adroddiad hunanarfarnu'r ysgol fel eu man cychwyn.

## Sut bydd arolygwyr yn ystyried barn fy mhlentyn am yr ysgol?

Yn ystod yr arolygiad, bydd arolygwyr yn gofyn i grwpiau o blant sut maent yn teimlo am yr ysgol, eu gwaith a pha mor dda y maent yn dod yn eu blaenau. Bydd sampl o ddysgwyr yn llenwi holiadur ar-lein cyn yr arolygiad.

Estyn

## Sut byddaf yn gwybod barn yr arolygwyr am yr ysgol?

Caiff adroddiadau arolygu eu cyhoeddi ar wefan Estyn 45 diwrnod gwaith ar ôl dechrau'r arolygiad. Bydd y corff llywodraethol yn anfon manylion am yr adroddiad atoch hefyd.

## Beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad?

Bydd yr adroddiad yn cynnwys barnau cyffredinol am:

- safonau
- lles ac agweddau at ddysgu
- addysgu a phrofiadau dysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt wrth lunio'r barnau hyn:

**Rhagorol:** Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
**Da:** Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
**Digonol ac angen gwelliant:** Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
**Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys:** Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

## Beth sy'n digwydd ar ôl arolygiad?

Rhaid i bob ysgol greu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol. Mae'r tri math o weithgarwch dilynol yn cynnwys:

**Adolygu gan Estyn:** bydd cynnydd yr ysgol o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a amlygir yn yr adroddiad yn cael ei adolygu tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu
**Gwelliant sylweddol:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â'r ysgol tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad arolygu
**Mesurau arbennig:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn cynnal ymweliadau rheolaidd i adolygu cynnydd yn yr ysgol yn sgil cyhoeddi adroddiad yr arolygiad

## Sut gallaf i gysylltu ag Estyn?

**Cyfeiriad:** Rhadbost ESTYN
**E-bost:** ic@estyn.llyw.cymru
**Ffôn:** 02920 446446
**Adborth am arolygiadau:**
adborth@estyn.llyw.cymru

Dilynwch y linc isod: https://vir.estyn.gov.uk/default.aspx Dewisiwch yr holiadur perthnasol
Mewnbynnwch: 10628 - Bydd yr holiadur ar gael tan 15 Mawrth 2018
Os oes angen copi caled, cysylltwch â'r ysgol - rhaid eu dychwelyd erbyn 12 Mawrth 2018

LETTER 9 : ESTYN INSPECTION @ Gwenffrwd April 9-12

# Understanding inspections in schools: A guide for parents and carers

**Estyn is responsible for inspecting a wide range of education and training provision in Wales, and will soon be inspecting your child's school.**

## How do inspectors take account of my views of the school?

Estyn wants to know your views on the school. You can do this by:

- **completing an online questionnaire** via the direct link provided by the school or by going to http://vir.estyn.gov.uk, clicking on 'complete a parent questionnaire' and inputting 10628. The questionnaires will be available until 15/03/2018.
- **attending a meeting with inspectors**. The school will inform you of the date and time.

If you have any difficulties in accessing or completing the questionnaire, hard copies are available from your school or Estyn on request. Return hard copies directly using the freepost facility or 'In Confidence' via your school no later than 12/03/2018.

## How will an inspection benefit my child?

An inspection tells you about the standards and quality at your child's school. It gives the school an expert view on its work, outlining what it does well and helps it to improve.

## Who inspects the school?

The inspection team is led by a Reporting Inspector who has considerable experience of teaching and education. Each inspection team also includes a lay inspector and a peer inspector. Lay inspectors have not worked as teachers in a school, while peer inspectors are headteachers or managers from another school. Each school may nominate someone to liaise directly with the inspection team to keep the inspectors informed about the school and its work.

## How will the school be inspected?

Inspectors follow Estyn's inspection guidance. They will use the school's self-evaluation report as their starting-point.

## How will inspectors take account of my child's view of the school?

During the inspection, inspectors will ask groups of children how they feel about the school, their work and how well they are getting on. A sample of learners will complete an online questionnaire before the inspection.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

## How will I know the inspectors' views on the school?

Inspection reports are published on the Estyn website 45 working days after the start of the inspection. The governing body will also send you details of the report.

## What will be included within the report?

The report will have overall judgements on:

- standards
- wellbeing and attitudes to learning
- teaching and learning experiences
- care, support and guidance
- leadership and management

Inspectors use a four-point scale when making these judgements:

**Excellent:** Very strong, sustained performance and practice
**Good:** Strong features, although minor aspects may require improvement
**Adequate and needs improvement:** Strengths outweigh weaknesses, but important aspects require improvement
**Unsatisfactory and needs urgent improvement:** Important weaknesses outweigh strengths

## What happens after an inspection?

All schools must produce an action plan based on the recommendations in the inspection report.
The inspection team will also consider whether the school requires any follow-up activity. The three types of follow-up activity include:

**Estyn review:** involves reviewing the progress the school has made towards addressing the recommendations highlighted in the report about 12-18 months after the publication of the inspection report
**Significant improvement:** involves a small team of Estyn inspectors visiting the school about 12-18 months after the publication of the inspection report
**Special measures:** involves a small team of Estyn inspectors making regular visits to review the school's progress following the publication of the inspection report

## How can I contact Estyn?

**Address:** Freepost ESTYN
**Email:** ic@estyn.gov.wales
**Tel:** 02920 446446
**Feedback about inspections:** feedback@estyn.gov.wales

Follow this link: https://vir.estyn.gov.uk/default.aspx Choose appropriate link
Type in: 10628 - The Questionnaire is available until March 15th 2018
If you require a hard copy, please school- hard copies must be returned by March 12th 2018